



Y Banksy Bach – tudalen 4

Llun: Marian Delyth

|                             |                 |                            |                   |
|-----------------------------|-----------------|----------------------------|-------------------|
| tud 4/5<br>Ysgol Tal-y-bont | tud 7<br>Dan Do | tud 10<br>Y Tu Ôl i'r Lens | tud 12<br>Pysgota |
|-----------------------------|-----------------|----------------------------|-------------------|

# Perygl traffig ger yr ysgol

Ynghanol mis Hydref, cafodd nifer o rieni a phlant eu dychryn a'u cynddeiriogi wrth dystio i ddigwyddiad (arall!) o or-yrru ar y ffordd y tu allan i'r ysgol.

Mae sefyllfa cyffredinol o ran trafnidiaeth yn Nhal-y-bont ar pentrefi cyfagos wedi bod yn fater o bryder ers blynnyddoedd, ac er bod ychydig o welliannau wedi digwydd y tu allan i'r ysgol dros y blynnyddoedd, nid yw wedi datrys y sefyllfa o bell ffordd.

Canlyniad yr anfodlonrwydd gwirioneddol diweddar yma oedd bod cyfarfod wedi digwydd ar faes parcio'r ysgol, ble rhannwyd llawer o bryderon a rhwystredigaethau'r gymuned gyfan gyda'r heddlu a chynghorwyr lleol a chenedlaethol. Yn ogystal â chynrychiolwyr o'r ysgol, roedd swyddogion yr Heddlu'n bresennol, ynghyd ag Ellen ap Gwynn (Arweinydd Cyngor Ceredigion), Nia Richards (Cadeirydd Cyngor Cymuned Ceulan Maesmawr), Ben Lake (yr Aelod Seneddol), Matthew Woolfall Jones (Plaid Cymru) ac Elin Jones (AS Ceredigion).

Trafodwyd rhai pethau y gellid eu gwneud yn gyflym gyda'r ewyllys gywir er enghraifft, sicrhau bod yr arwyddion 20 mya yn gweithio, mwy o arwyddion wrth gyrraedd y pentref, mwy o bresenoldeb a chodi ymwybyddiaeth ymysg yr holl gymuned.

Cytunodd yr ysgol i fod yn rhan o'r ymgyrch i wella'r sefyllfa ac maent wedi atgoffa'r rheini o rai materion pwysig fel,

1. gofyn i bawb sydd yn defnyddio'r maes parcio i fod yn ofalus ac yn bwyllog.
2. atgoffa pawb taw ar gyfer unigolion sy'n meddu ar fathodyn parcio i'r anabl neu'r taci mae'r llyfdd parcio penodedig o flaen yr ysgol. Gofynnwn yn garedig i neb barcio yn y llyfdd yma er hwylustod i bawb.
3. peidio parcio ar y pafn gyferbyn â'r ysgol gan fod hynny'n ei gwneud hi'n anodd iawn i deuluoedd sy'n cerdded i groesi'r ffordd yn ddiogel.

Ers y cyfarfod maent wedi derbyn gohebiaeth i ddweud y bydd y goleuadau arafu'n cael eu haddasu i fflachio ar yr amseroedd cywir a



llythyr yn cadarnhau bod gan Lywodraeth Cymru gynllun ar y gweill ar gyfer Tal-y-bont fydd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu yr angen am fesurau rheoli cyflymder i gael mwy o bobl i gydymffurfio â'r terfyn cyflymder, megis gwell arwyddion ar gyfer y terfyn cyflymder.
- Adolygiad o'r palmentydd ar bylchau yn y ddarpariaeth ar hyd y gefnffordd i nodi opsiynau ar gyfer gwella.
- Asesu croesfannau i gerddwyr yng nghyffiniau yr ysgol, wedi derbyn deiseb yn ddiweddar.

Bwriedir dechrau'r gwaith hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2023 / 2024.

Mae cylch gwaith Llywodraeth Cymru yn cynnwys edrych ar y defnydd o ddeddfwriaeth sydd ar gael ar hyn o bryd o ran parcio ar balmentydd hefyd.

Cafodd **Adroddiad y Tasglu** ei gyhoeddi'n ddiweddar yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru i'w hargymhellion, sydd i'w gweld ar-lein ar **Llywodraeth Cymru'n rhoi'r pwerau i'r Cynghorau roi stop ar Barcio ar Balmentydd**.

Gobeithio y gweithredu'n bositif ac yn gadarn i wella'r sefyllfa bresennol.



## Papur Pawb

### Golygydd Cyffredinol:

Gwyn Jenkins  
(01970) 832560

Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion  
golygydd@papurpawb.com

### Tynnu lluniau:

Cysyllter â golygyddion y mis

### GOHEBYDDION LLEOL

#### Tal-y-bont:

Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont  
832592

#### Parsel Henlllys:

Rhys Huws, Llwyn Onn  
832076

#### Bont-goch:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch  
832566

#### Llangynfelyn:

Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin  
832573

#### Eglwysfach/Ffwrnais:

Non Griffiths  
(01654) 781264

#### Rhwydweithiau cymdeithasol:

Ceri Morgan

### CYMDEITHAS PAPUR PAWB

#### Cadeirydd:

Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont  
832697

#### Is-gadeirydd:

Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch  
832566

#### Ysgrifennydd:

Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont  
832344

#### Trysorydd:

Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont  
832093

#### Tanysgrifiadau:

Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont  
832448

#### Hysbysebion:

Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

#### Dylunio:

Iolo Ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

#### Plygu'r Papur:

Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins

#### Dosbarthwyr:

Lynn Ebenezzer; Gwenllian Parry-Jones;  
Carys Briddon, Bob Williams

Cyhoeddwyd gan  
Gymdeithas Papur Pawb.  
Ariennir yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru.

CYMRAG

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...  
**www.papurpawb.cymru**  
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)

## Golygyddion

Golygyddion y rhifyn hwn  
oedd Helen a Ceri, gyda  
Ceri yn dylunio.  
Diolch iddynt.

Y golygyddion ar gyfer  
rhifyn Rhagfyr fydd Rhian  
(rhian.evans@tiscali.co.uk)  
a Catrin  
(catrinssj@gmail.com).

Y dyddiad cau yw 4 Rhagfyr  
a bydd y papur ar werth ar  
11 Rhagfyr.

## Dyddiadur

### Tachwedd

- 15 Bethel 10 Gwilym Tudur  
Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth  
Boreol
- 29 Bethel 10 Geraint Evans  
Eglwys Sant Mihangel,  
Eglwysfach 9.30 Gwasanaeth  
Boreol

### Rhagfyr

- 13 Bethel 10 Gwilym Tudur

## Antur Adre



Gerwyn, Eifion a Rhian

Braf oedd gweld wynebau  
cyfarwydd yr ardal ar y teledu yn  
ddiweddar. Bu plant Eurfan,  
Tal-y-bont ar y rhaglen S4C,  
Antur Adre - Gerwyn ac Eifion  
Jones a'u chwaer Rhian, lle bu'r tri  
lawr yn Mwnt a Chei Newydd yn  
gwrsylla a phrofi profiadau  
cyffrous yn yr awyr agored. O  
bysgota mecryll, i blymio mewn i'r  
dŵr yn Aberreiddi a myfyrio yn  
Eglwys y Mwnt.

Dwedodd Gerwyn 'Buom ni'n  
lwcus iawn i gael cyfle i ail fyw  
profiadau plentynod wrth  
bysgota am fecryll a gwyllo  
dolffiniaid yng Nghei Newydd.  
Roedd dringo, nofio a deifio yn  
Aberreiddi yn brawf, os oedd  
angen, ein bod ni dal fel plant!  
Ategodd y profiad pa mor lwcus  
ydi ni o'r hyn sydd gyda ni ar ein  
stepen drws. Gobeithio bydd cyfle  
am Antur Adre yn fuan eto!

I unrhyw un wnaeth golli'r  
rhaglen, mae modd gwyllo'r  
bennod ar S4C Clic.

**Gwasanaeth Scanio**  
**ARTHUR MORGAN**



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
(01239) 615085. Mobile (0421) 786292

**Salon Leri**



Pob agwedd o drin  
gwalt gan Richard

10am-7pm  
Llun-Gwener  
(01970) 832 674



Elin Jones AS yn curdd ag aelodau 'Y Wrach' i drafod cynllun CNC

## Llythyr gan Ymgrych Leol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dechrau gweithio ar godi lefelau dŵr  
ar Gors Fochno, gan gynyddu risgiau llifogydd ar dir amaethyddol yn  
sylweddol, bygwth gwerth eiddo ac achosi risgiau iechyd niweidiol  
posibl. Mae hyn yn ychwanegol at effeithiau cynhesu byd-eang, llanw'n  
codi a mwy o beryglon llifogydd.

Gydag adleisiau o Dryweryn, nid yw'r tîm sy'n arwain y gwaith hwn  
o godi'r gors, gyda £4miliwn o arian cyhoeddus, wedi ymgynghori â  
phobl blwyf Llangynfelyn mewn ffordd deg neu ddemocrataidd, ac nid  
ydynt erioed wedi egluro i bobl leol  
beth yw pwrpas y rhaglen. Mae ond yn  
iawn ac yn briodol fod trigolion lleol  
yn rhan ddemocrataidd o'r broses.  
Cafwyd yr unig achos o gyfranogiad  
cymunedol yn gynnar yn y flwyddyn, wedi'i hyrwyddo trwy un wefan,  
ac roedd mor ddisylw fel ei fod bron yn anweledig. Gosodwyd dwy faner  
fach a'u tynnu i lawr mewn dwy awr yn unig ar fore Sul.

Ni fu unrhyw broses ddemocrataidd, dim ymgysylltiad â'r busnesau a  
allai golli eu bywoliaeth - cenelau a chanolfan arddio, tri pharc carafanau,  
a chyfleusterau storio modern mawr. Dylai ein 26 fferm leol fod wedi  
cael gwybod yn llawn am unrhyw gynlluniau a allai effeithio ar eu  
bywoliaeth.

Dylai CNC weithio ar y cyd â'r gymuned leol, yn hytrach na bwrw  
ymlaen â chynllun dadleuol iawn nad yw wedi'i drafod na'i gyfiawnhau.  
Ac wrth i'r sefydliad ddechrau cau ffosydd draenio, gan ganiatáu i lannau  
afonydd byrstio, mae eiddo mewn perygl. Mae'n hanfodol bod camau  
pellach yn cael eu hatal a bod ymgynghoriad llawn yn digwydd.

### 'Y WRACH'

Bydd *Papur Pawb* yn falch i gynnwys ymateb gan CNC yn y rhifyn nesaf  
(golygydd cyffredinol)



Ffrindiau'r Gors Fochno

### Cydymdeimlad ychwanegol

Yn y rhifyn diwethaf estynnwyd cydymdeimlad â theulu Mike Lowe,  
Bont-goch gynt, a fu farw'n ddiweddar ond methwyd â chynnwys  
enwau ei blant o'i briodas gyntaf. Estynnwn felly ein cydymdeimlad â  
Ticky, Christian, Thomas ac Alex a'u teuluoedd gan obeithio na fu i'r  
eitem wreiddiol achosi gofid iddynt hwy.



**Alun Davies**  
**Contractiwr Trydanol**

**T** 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA  
**E** alun.davies142@btinternet.com



**Ffwrnais**  
Blin iawn yw cofnodi marwolaeth un o gymeriadau yr ardal, sef Anne Jenkins gynt o fferm Ynysgreigog, a fu farw yng Nghartref Tregerrddan ar Ddydd Mawrth, yr 20fed o Hydref. Cydymdeimlwn gyda Heulwen, Einion, a'r teulu yn eu colled.

**Swydd Newydd**  
Dymuniadau gorau i Robert Parry Jones, Isallt, Tal-y-bont ar ei swydd newydd yng Nghartref Hafan y Waun, Aberystwyth. Mae'n aelod o'r tîm sy'n gofalu am y preswylwr ac maent eisoes wrth eu boddau yn cael Robert yn gofalu amdanynt.

**Yn Gwella**  
Mae'n braf gweld bod Arwel West, White Windows, Tal-y-bont yn cryfhau yn dilyn ei driniaeth diweddar. Dymunwn wellhad buan iddo.

**Priodasau Rhuddem**  
Cyfarchion lu i Dei a Mair Jenkins, Ynyseidiol, Ffwrnais ac i Phil a Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont sydd wedi dathlu priodas ruddem.

**Gwellhad Buan**  
Cyfarchion cynnes am wellhad buan i Patrick Laverty, Heulwen Haf, Tal-y-bont yn dilyn triniaeth diweddar ar ei gefn. Edrych ymlaen at dy weld nôl ar ben y sgaffaldiau ger y tŷ newydd!

**Ymgartrefu**  
Croeso cynnes i Janet Smith sydd wedi ymgartrefu yn Ger-y-nant, Bont-goch ar ôl symud yma o Gernyw. Nid yw Peter a Karen Egan, a fu'n byw yn Ger-y-nant, yn gadael y pentref, ond yn hytrach maen nhw eisoes wedi dechrau adeiladu tŷ newydd drws nesaf i Ger-y-nant. Dymunwn yn dda i'r ddau deulu.

**Cydymdeimlo**  
Anfonwn eich cydymdeimlad at deulu'r diweddar Doreen Jones, Llangefni, bu farw yn 78 oed ar Dachwedd 4ydd. Ganwyd a magwyd Doreen ym Mhenlôn, Tal-y-bont a mynychodd Ysgol Tal-y-bont ac Ardwyn.

**Llongyfarchiadau**  
Llongyfarchiadau i Non Jones, 14 Dôl Pistyll, Tal-y-bont ar ddod yn Gymrawd Cysylltiol yr Academi Addysg Uwch (AFHEA) yn ddiweddar ar ôl cwblau rhaglen Addysgu i Uwchraddedigion ym Mhrifysgol Aberystwyth (AUMA).

**Cartref Newydd**  
Pob dymuniad da i Dr Matt Gunn a Dr Helen Miles yn eu cartref newydd yn Brynywawr, Tal-y-bont.



Llun: Whole Picture Weddings

**Priodas Hapus**

Ar waetha'r amgylchiadau anodd oherwydd cyfyngiadau Covid-19 cynhaliwyd priodas Hedydd Mai Philip, Gwynionydd, Tal-y-bont a Tomos Alun Evans, Coedpoeth, Wrecsam yng nghapel Bethel, Tal-y-bont ddydd Sadwrn 3 Hydref. Nifer cyfyngedig oedd yn bresennol ac nid oedd modd cynnal derbyniad, ond cafwyd achlysur llawen yng nghwmni teulu agos. Roedd yn hyfryd gweld cymdogion yn cefnogi Hedydd ar ochr y ffordd wrth iddi gerdded i'r gwasanaeth gyda nifer o bentrefwyr hefyd y tu allan i'r capel yn dilyn y briodas yn cyfarch y pâr ifanc. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd lle mae Alun yn gweithio i'r Cyd-bwyllgor Addysg a Hedydd yn dysgu Cyfraith Ewropeaidd yn y Brifysgol tra'n astudio ar gyfer ei doethuriaeth.

**Sul y Cofio**



Er gwaethaf y Cyfnod Clo Byr, llwyddwyd i nodi Sul y Cofio mewn ffordd teimladwy a sensitif. Diolch i'r unigolion creadigol a fu'n creu'r gofeb deimladwy hon.



**Dylunio Logo**  
Llongyfarchiadau mawr i Glain Jones, blwyddyn 8, Ysgol Penweddig, sydd wedi ennill cystadleuaeth i ddylunio logo ar gyfer Gŵyl 'Crime Cymru', a fydd yn digwydd yn Aberystwyth yn 2022. Mae'r ysgol a'r adran DT yn falch iawn ohonot!

**Genedigaeth**  
Llongyfarchiadau i Ben Bradley a Siwan Morris Maes-y-Deri, Tal-y-bont ar enedigaeth merch fach.

**Gwellhad Buan**  
Dymuniadau gorau i Mrs Luned Williams, Cynnull Mawr a Mrs Marion Evans, Tŷ Nant sydd wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Plismones**  
Llongyfarchiadau i Nia Jones, Ardwyn, Tal-y-bont sydd newydd gael ei phenodi'n blismones yn ardal Dolgellau.

**Cyfarchion Penblwydd Priodas**  
Cyfarchion i Mair a Huw Rowlands, Erglodd a Carys a Graham Briddon ar ddathlu penblwydd priodas aur.

**Gwellhad Buan**  
Dymunwn wellhad buan i Lisa Tomos Pentrebach wedi iddi cwmpo o ysgol a brifo'i choes a'i chefn wrth wneud cymwynas â cherddwyr lleol drwy ail osod yr arwydd llwybr cyhoeddus gyferbyn â'i thŷ. Bu ym Mronglais, a dychwelyd yn boenus.

Braf clywed bod Mai Leeding, Glannant, Taliesin nôl yn ei chartref wedi cyfnod yn Ysbyty Bronglais. Gwellhad llawn buan iddi.

**Cydymdeimlad**  
Cydymdeimlwn gyda Janet Owen, Rhoslan ar farwolaeth ei thad mewn ysbyty yn yr Amwythig yn ystod mis Hydref.

**Penblwydd Hapus**  
Dymuniadau gorau i Falyri Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont ar ddathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.





Llun: Marian Delyth

## Y Banksy Bach

Mae'r artist Ruth Jen, Yr Hen Siop 'Sgidie, Tal-y-bont yn hen gyfarwydd â bod ar ben tŵr o sgaffaldiau. Mae Ruth, sy'n gyfrifol am baentio'r murlun enfawr ar dalcen Stordyr Lofa ar waelod yn pentref, yn ffan o graffiti ers blynioedd.

Felly roedd yn ddewis delfrydol ar gyfer y gwaith o adfer y darn graffiti fwyaf eiconig yng Nghymru.

Yn ystod mis Hydref dringodd Ruth i ben sgaffaldiau ychydig ym mhellach i ffwrdd fel ran o'r gwaith adfer ar wal 'Cofiwch Dryweryn'.

Mae'r wal yn sefyll ger ffordd yr A487 rhwng Llanrhystud ac Aberystwyth, ac mae'r geiriau arni yn cyfeirio at foddio Capel Celyn, Cwm Tryweryn.

Ar nos Iau, Hydref 22, 55 mlynedd ar ôl paentio'r slogan yn wreiddiol gan Meic Stephens, bu'r arlunydd yn paentio'r wal yng ngolau car, mewn adlais o'r weithred gyntaf.

Cafodd cynlluniau i ailadeiladu ac ailbaentio'r mur eu cytuno ym mis Mawrth, a phenodwyd arbenigwr yn y maes cadwraeth adeiladu, Nathan Goss o Aberystwyth, i reoli'r cynllun i ddiogelu'r wal.

Daeth hyn yn sgil ymgyrch cyhoeddus sylweddol a ddaeth i binacl y llynedd wedi i'r wal gael ei ddifetha ar nifer o achlysuron gwahanol.

Ers mis Gorffennaf y llynedd mae'r wal ac ychydig o dir o'i chwmpas wedi bod ym mherchnogaeth Dilys Davies, gwraig sydd a'i gwreiddiau yn y sir. Mae Dilys wedi sicrhau'r gymuned ehangach y bydd y wal yn 'safu am byth'. Dwedodd Ruth 'I mi, y penderfyniad gore, oedd mynd nôl lawr i baentio'r wal wedi iddi nosi. Roedd y profiad yn driw i'r weithred gwreiddiol ac i'r traddodiad o greu graffiti.'

## Llyfr newydd ar hanes Bont-goch

Mae Richard Huws wedi cyhoeddi llyfr arall ar hanes Bont-goch i gydlyn â'i gyfrol *Enwau Tai a Ffermydd Bont-goch (Elerch)*, a gyhoeddwyd yn 2017.

Mae *POBOL Y TOPIE / BONT-GOCH LIVES* yn gyfrol ddwyieithog, ac yn cynnwys hanes difyr dros 100 o ddynion a merched a wnaeth gyfraniad i fywyd cyfoethog un o gymunedau gogledd Ceredigion, tra bod eraill a anwyd yn Bont-goch, wedi gwneud eu cyfraniad y tu hwnt i Geredigion, mewn rhannau eraill o Gymru, yn Lloegr, ac mewn nifer o wledydd tramor gwahanol.

Yn eu plith mae arlunwyr, athrawon, awduron, beirdd, bonedd, cenhadon, crefftwyr, ffermwyr, gweinidogion ac offeiriaid, milwyr, mwynwyr a pheirianwyr mwynloddio, a detholiad o gymeriadau gwledig sy'n cynnwys ambell ecsentrig.

Mae'r awdur wedi byw yn Bont-goch ers ugain mlynedd. Cyn ei ymddeoliad bu'n Bennaeth Gwasanaethau Darllen ac Ymholiadau Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

Bydd y gyfrol ar werth mewn siopau llyfrau a rhai siopau lleol, ac ar wefan Cyngor Llyfrau Cymru, sef [www.gwales.com](http://www.gwales.com)

Am fanylion pellach gellir cysylltu â'r awdur. [rehuws@aol.com](mailto:rehuws@aol.com)



## Ysgol Tal-y-bont



Diwrnod Shwmae / Sumae



Plannu




Calan Gaeaf / Tân Gwylt

## Ffotomarathon 2020



Clyd – Hedydd



Drych – Hopcyn



Llawnder – Martha Cosson (cynradd)



# Ysgol Tal-y-bont

## Diolch

Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch yn fawr i Mrs Sue Herron am ei gwaith diflino dros yr ysgol mewn cyfnod anodd ac anarferol lle bu'n rhaid addasu'n gyflym iawn i ffordd newydd o ddysgu ac o gydweithio. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol Mrs Herron gan obeithio eich gweld yn ôl ar dir Ysgol Tal-y-bont yn fuan iawn.

## Diwrnod Shwmae / Sumae

Penderfynwyd trefnu gweithgareddau cyffrous i gyd-fynd gyda Diwrnod Shwmae / Sumae. Mae'n debyg bellach ein bod wedi dathlu Diwrnod Shwmae Sumae ers mis Hydref 2013 i hybu'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda shwmae, su'mae neu shwddi! Nod y diwrnod yw dangos bod y Gymraeg yn perthyn i bawb ac mae'n gyfle i gael hwyl a rhannu'r iaith hefyd. Roedd hynny'n sicr yn wir yn Ysgol Tal-y-bont eleni. Diolch am drefnu gweithgareddau cyffrous a diddorol i'r plant.

## Sukkot

Gŵyl Iddewig yw Sukkot sy'n cael ei ddathlu yn ystod Tymor yr Hydref. Mae'm gyfle i atgoffa Iddewon o hanes yr Israeliaid pan oedden nhw'n ffoi o gaethiwd yn yr Aifft a'e bywyd anodd yn yr anialwch. Un o brif nodweddion yr ŵyl yw'r arfer o adeiladu sukkah, lloched dros dro i gofio am y cyfnod yn crwydro yn yr anialwch. Rhaid addurno to'r lloches gyda changhennau a dail a'r waliau gyda blodau a ffrwythau. Roedd Blwyddyn 1 a 2 wedi cael tipyn o hwyl ar adeiladu eu sukkah nhw eleni. Da iawn chi.

## Plannu

Ynghanol y cyfnod ansicr yma, mae'n braf gweld plant y Cyfnod Sylfaen yn brysyr yn plannu planhigion ar gyfer y gwanwyn.

## Calan Gaeaf / Tân Gwylt

Gan nad oedd modd cynnal partion Calan Gaeaf na chynnau coelcerthi eleni, penderfynodd plant yr ysgol drefnu eu partion yn yr ysgol. Ac am syniadau gwych a gafwyd! Manteisiodd Blwyddyn 1 a 2 ar y cyfle i ddefnyddio pwmpenni i drefnu gwaith yn ystod yr wythnos gan gynnwys dyfalu a mesur eu hyd a'u lled.

Yna yn y Dosbarth Derbyn trefnwyd llawer o weithgareddau tân gwylt gwych. Yn ogystal ag atgoffa pawb am y rheolau diogelwch a gwers i ddisgrifio tân gwylt roedd y plant wedi cael hwyl yn peintio golygfa noson tân gwylt ac wedi creu bwydydd gwych fel roced ffrwythau cebab. Da iawn chi blant, un i Mr Jones y tro nesaf os gwelwch yn dda!



## Ffotomarathon 2020

Cafodd ffotomarathon blynyddol FfotoAber ei chynnal yn rhithiol eleni, gan ganiatáu i gystadleuwyr o bob rhan o Gymru a thu hwnt gyflwyno eu ceisiadau, ac roedd 3 ffotograffydd ifanc o Ysgol Tal-y-bont ymysg y 150 o bobl a fu'n cystadlu. Roedd 'na dipyn o waith i'r beirniad, y ffotograffydd proffesiynol, Kristina Banholzer, ac roedd yn cydnabod fod y safon yn anhygoel o uchel ar draws pob categori ac roedd penderfynu ar y ceisiadau buddugol yn dipyn o her. Ewch ar wefan ffotomarathon.cymru i weld holl luniau Hopcyn, Hedydd a Martha, maent yn werth eu gweld. Gwych, chi'ch tri!

## Cronfa Eleri

**Blwyddyn 2020 – dros £20,400 i'w rannu**

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais a manylion ar gael o: [cronfaeleri.cymru](http://cronfaeleri.cymru)

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: [yholiadau@cronfaeleri.com](mailto:yholiadau@cronfaeleri.com)

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 14eg 2021**

**Amcanion Cronfa Eleri**

*'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'*

# Ymwelwyr o'r Gogledd Oer

Wrth gerdded ar brynhawn oer a gwyntog ddiwedd Hydref o Graig-y-penrhyn tua phont y rheilffordd, taith o 2km, sylwi ar siâp annaturiol ar lan y Cletwr ger y bont. Pan o fewn cyrraedd sylweddoli taw pabell oedd yno. A hithau'n oer holi pwy fyddde'n gwersylla yn y fan a'r lle yn y fath dywydd. Roedd pâr o sgidiau i'w gweld y tu allan i'r babel ac ysbieddych cryf gerllaw. Yn y babel roedd dyn ifanc yn llochesi ac yn sylu allan i gyfeiriad y Ddyfi a Machynlleth. O'i holi, dod i ddeall ei fod yn aros am haid o wyddau talcenwyn oedd ar eu taith flynyddol o'r Ynys Las i aeafu ar dir maethlon y Ddyfi. Ar un adeg byddai cannoedd yn dod i Gymru ond erbyn heddiw maen nhw yn eu dwsinau, gyda lwc. Ar y daith o ryw 2,500km (1,500mllt) mae'r gwyddau'n aros am ychydig yng Ngwlad yr Iâ cyn hedfan ymlaen i naill ai Gogledd yr Iwerddon



neu Yr Alban cyn gorffen eu taith mewn mannau eraill yn Lloegr neu yma ar y Ddyfi. Aros fyddan nhw tan i'r gwanwyn orffen cyn dychwelyd i'r gogledd i ddodwy a magu'r ifanc. Yr ŵydd dalcenwyn yw'r enw arni oherwydd y plu gwyn uwchben y big, rhwng y llygaid. Wrth iddi hedfan bellter collir y plu i'w dyfu eto yn y man.

Petai'r gwyddau ddim yn dod y diwrnod hwnnw byddai'r gŵr ifanc yn dod y diwrnodau canlynol tan iddo gael golwg arnynt i dynnu lluniau. Ar ôl meddwl a oedd y dyn ifanc, amyneddgar yn rhan o Autumn Watch y BBC sydd wedi bod yn darlledu o CAT? Tybed wir?

*Rh.H*

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                                                                                                                                                                               |                                                                                                               |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <br><b>GLANYRAFON</b>                                                                                                                                                                                                                                  | <b>TEIARS</b><br><b>Aliniad Olwyn</b><br><b>Ecsôsts</b><br><b>Batris</b><br><b>Brêcs</b><br><b>Hongiad</b><br><b>Bar tynnu</b><br><b>Gwasanaeth</b><br><b>MOT</b><br><b>HUWLEWISTYRES.COM</b> | <br><b>Rhodfa'r Parc</b> |
| <p>Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.<br/>Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan<br/><b>ALIGNMYCAR.CO.UK</b><br/>Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.<br/><b>ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000</b><br/><b>LLANBED 01570 422221</b></p> |                                                                                                                                                                                               |                                                                                                               |

## Y LLEW GWYN Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

**Ar agor bob dydd**

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

**Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00**  
**(Un cwr: £7.95 Dau gwr £9.95)**

Ystafelloedd ar gael

**01970 832245**  
**[garethwhitelion@outlook.com](mailto:garethwhitelion@outlook.com)**

ADOLYGIAD

# Criw'r Coed a'r Gwenyn Coll

Carys Haf Glyn, Lluniau Ruth Jên – Y Lolfa  
Ar gael am £6.99 o'ch siop lyfrau leol, gwales.com neu siop Y Lolfa

Dyma lyfr cyntaf yr awdur Carys Haf Glyn ac wel – am ddechrau gwyth!

Fe wnawn ni sôn am y stori yn y man, ond yn gyntaf... rhaid sôn am y lluniau! Wrth gwrs, rydyn ni wrth ein boddau gyda'i gwaith blaenorol ac mae'r artist Ruth Jên yn ffrind i'r ysgol ond mae'n rhaid canmol y lluniau. Mae pob tudalen yn lliwgar a bywiog ac mae llygaid clociau'r Gwddi-Hw, pen Carwww yn dirgrynu ac wrth gwrs "Cofiwch y Gwenyn" wedi achosi i rai ohonyn ni i rollo chwerthin!

Rydyn ni'n teimlo fod y broliant wedi ei anelu tuag at oedolion yn hytrach na phlant ond yn ffodus roedd y clawr blaen yn ddigon trawiadol i'n denu.

Mae'r stori'n sôn am bump anifail doeth – sef Criw'r Coed. Rydyn ni wedi hen arfer â meddwl am y dylluan fel anifail doeth ond yn y llyfr yma mae Gwddi-Hw hefyd yn cwl. Mae wrth ei fodd yn rapio ac er mwyn rapio mae'n rhaid odli. Yn ffrindiau i G-Hw, mae Carwww (oes mae 3 w yn ei enw), Mwyalchen, Eryr a Chwim yr eog. Un diwrnod mae'r criw yn clywed swn mwntian trist yn dod yn nes ac yn nes. Mae Gwenynen druan yn unig gan fod ei holl ffrindiau wedi diflannu o Gymru. Dydy Carwww ddim yn rhy siomedig fod y gwenyn wedi diflannu nes i Chwim egluro heb wenyn does dim afalau! Mae'r anifeiliaid yn defnyddio'u sgiliau arbennig i weld beth sy'n bod ac yn meddwl am gynllun i ddatrys y broblem.


Y broblem yw fod y gwenyn wedi "diflannu" gan nad oes blodau yn tyfu ac heb y gwenyn does dim ffrwythau na llysiau yn tyfu chwaith. Mewn rap, wedi ei fframio gan luniau o flodau a gwenyn, mae Gwddi-Hw yn egluro'i gynllun. Er mwyn denu'r gwenyn yn ôl i Gymru mae'n rhaid gwasgaru hadau blodau – ac y brif neges yw – mae'n gyfrifoldeb ar BAWB wneud hyn. Dyma sylwadau'r adolygwyr ifanc...

"Mae'r lluniau'n bert a doniol." Minnie  
"Fy hoff gymeriad yw Gwddi-Hw achos mae'n rapio." Mari  
"Mae'r llyfr yn dda achos mae'n dweud wrth bawb am helpu." Ben  
"Rwy'n hoffi'r lluniau o'r anifeiliaid yn gwyllo'r awyr pan mae'r haul yn machlud." Layla  
"Fy hoff ran yw pan mae llygaid G-Hw yn edrych fel clociau." Alaw  
"Fy hoff ran yw'r diwedd pan mae'n dweud 'Cofiwch y Gwenyn' yn lle 'Cofiwch Dryweryn'." Pheonix  
"Fy hoff ran yw pan mae Carwww yn gweiddi, 'A! A! A!' pan mae'n clywed bydd dim afalau." Ariana  
"Fy hoff ran yw pan mae'r saethau sy'n dweud 'noeth' yn pwyntio at Chwim. Mae'n ddoniol iawn." Tomos  
"Byddwn i ddim yn newid unrhyw beth am y llyfr. Mae'n hyfryd a doniol." Rosie  
"Dwi'n meddwl dylai'r awdur fod wedi galw'r dylluan yn Hwddi-Hw gan ei fod yn gwisgo hwdi coch." Willow

Roedd pawb yn cytuno y byddai'r llyfr yn apelio at blant a phobl o bob oed sy'n hoffi byd natur, anifeiliaid, lluniau hardd a llyfrau doniol.

Rydym yn gobeithio'n wir taw dyma'r cyntaf mewn cyfres o lyfrau am Griw'r Coed.

Blwyddyn 3 a 4, Gymunedol Ysgol Tal-y-bont



## Teyrnged

### Gwesyn Evans, Pantydwn



Ar fore dydd Iau y trydydd ar hugain o fis Gorffennaf trist oedd clywed y newyddion am farwolaeth Mr Gwesyn Evans, Pantydwn. Er ei fod wedi cyrraedd oedran teg o nawdeg dau o flynyddoedd, gwyddom ein bod wedi colli un o gymeriadau mwyaf unigryw a gwreiddiol yr ardal.

Yn enedigol o fferm Ruel Isaf yn Bow Street, Gwesyn oedd y trydydd plentyn i William ac Annie Evans allan o naw o blant. Yn hanner olaf y pumdegau fe fu i'r teulu brynu fferm Pantydwn ger y Borth a Gwesyn felly efo'i frawd Gerallt a'i chwaer Enid yn cael annibyniaeth ac yn symud yno i fyw. Ddwy flynedd yn ddiweddarach prynu fferm Frongoch oedd llai na milltir i ffwrdd a'i ffermio fel un uned.

Yn y cyfnod cynnar hwn fe fu i Gerallt briodi â Mair, merch o ardal Machynlleth, ac fe briododd Enid hithau a symud i fyw i ardal Ponterwyd. A hyd y diwedd fe fu i Gwesyn gydfyw efo'i frawd a'i chwaer-yng-nghyfraith, tyst rwy'n siŵr i'w natur hawddgar.

Nid oedd ganddo ddiddordebau eithafol o gwbl, hoffai ddarllen ei bapur yn ddyddiol a hefyd hanes lleol, a gwyllo rhaglenni Cymraeg ar y teledu. Bu'n ysmygwr cetyn brwdfrydig ers pan yn ddeuddeg oed hyd y diwedd, yn smocio'r baco cryfaf posibl, Ringers Shag.

Hoffai hefyd flynyddoedd yn ôl fynychu y Llew Du yn Nhal-y-bont ar nos Sadwrn i gael ymryson a chlonc efo'i ffrindiau ond o un i un fe ddiffannodd canran o'r ffrindiau hynny ac fe ddaeth y cyfnod hwnnw hefyd i ben, a'r gymdeithas a oedd mor hoff ohoni. Yn ôl Gerallt nid oedd ganddo ddiddordeb o gwbl mewn peiriannau, ac wrth edrych yn ôl er i mi fod yn gymydog iddo ar hyd oes nid oes gennyf gof ohono yn dreifio tractor.

Ond roedd ganddo nwyd eithriadol tuag at un erfyn neu declyn, a'r teclyn hwnnw oedd ei 'bladur'. Bob dydd bron byddai allan yn pladurio, torri esgyll, tafol, danadl poethion, ac unrhyw chwyn arall a fentra'i ddangos ei ben, unrhyw fan na fedrai tractor a pheiriant fynd iddo, byddai Gwesyn a'i bladur wedi mynd i'r ymrafael.

Roedd llafn newydd i'r bladur yn cyrraedd Pantydwn bob blwyddyn efo ffeil gan bod yr un flaenorol wedi treulio allan. Dim rhyfedd felly fod y ffermydd yn werth eu gweld ac yn ddichwyn.

Bu'n ffyddlon ar hyd ei oes i'w gapel, i ddechrau yn y Garn ac yna dros hanner can mlynedd yn y Babel yn Nolybont hyd ei gau a'i werthu yn ddiweddar, yna ail ymaelodi yn y Garn.

Bu'r angladd ym mynwent Tal-y-bont ar yr unfed ar ddeg ar hugain o fis Gorffennaf ac oherwydd y Covid dim ond deg aelod o'r teulu yn unig yn lywedig i fod yn bresennol. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym medd y teulu, a bwrcaswyd gan eu tad flynyddoedd maith yn ôl.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle o gydymdeimlo â'r teulu cyfan yn eu profedigaeth, a llawenhau hefyd ein bod wedi cael y pleser o adnabod cymeriad mor unigryw a diffuant, a diolch am fod wedi cael ei adnabod. Mae bywyd wedi bod yn fwy diddorol a chyfoethocach o'r herwydd.

Bob Williams

*Rhian*

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612  
07835 525 553

**Iwan Jones**

**Gwasanaethau Pensaernïol**

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ  
**helen.iwan@btinternet.com**

**01970 832760**

**Afiaith**

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Talleis, MACHYNLLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



# Dan Do

**Dyma'r ail yn y gyfres ar adeiladau hen a newydd yn yr ardal.  
Y tro hwn fe gawn ychydig o hanes Felin Penpompren, Tal-y-bont  
gan y preswlydd presennol, Linda Denton.**

Saif Felin Penpompren ger y llwybr cyhoeddus, ar bwys y bont bren fach dros yr afon Ceulan.

Mae gan Dal-y-bont hanes cyfoethog o felinau dŵr. Roedd gan y pentref o leiaf ddwy felin flawd a sawl melin wlan. Roedd hefyd tri thwrbin trydan a ddefnyddiai llif dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r melinau hyn wedi goroesi ac, o ran archaeoleg diwydiannol, mae gan Dal-y-bont dreftadaeth bwysig yn y maes.

Melin flawd oedd Felin Penpompren. Yn ôl y perchennog blaenorol, roedd melin o ryw fath yma ers yr 17eg ganrif. Ond adeiladwyd y felin bresennol tua chanol y 19eg ganrif. Mae cofnodion yn dangos bod cais wedi ei wneud yn 1845 /6 i adeiladu leet i ddargyfeirio dŵr o'r afon Ceulan er mwyn gwasanaethu Felin Penpompren, felly dwi'n dyfalu bod y pwll, yr olwyn fawr a'r peiriannau modern yn dyddio o'r cyfnod hwnnw. Roedd yr olwyn ar ochr ddwyreiniol y tŷ, ger y llwybr cyhoeddus sy'n mynd heibio'r tŷ heddiw.

Yn 1904 ysgrifennodd y Cyngor Dosbarth at berchennog Penpompren, Mrs Anwyl, i ofyn am help i adeiladu pont lydan newydd dros yr afon. Atebodd hithau gan ddweud nad oedd y felin yn weithredol a doedd dim angen ffordd gert dros yr afon, felly cynigiodd dalu tuag at bont gul. Felly, mae'n amlwg nad oedd y felin yn weithredol am ddim mwy na hanner canrif.

Ar y safle heddiw mae pwll y felin, (gyda'r dŵr o'r afon Ceulan yn ei gyrraedd drwy ffos a godwyd rhwng y Ffald a'r felin), melin, tŷ (sy'n edrych fel un adeilad nawr ond dwi'n siwr bod dau dŷ yno ar un adeg) a ffwrnais (lle i sychu a chadw blawd a grawn).

Yn ôl y cyfrifiad, teulu o'r enw Morgan oedd yn cynnal y felin yn yr 19eg ganrif. Yn ddiddorol 'Felinfach' oedd enw'r tŷ ond yng nghyfrifiad 1939 ceir yr enw 'Penbontbren'.


Ces i ymwelydd arbennig un diwrnod yn 2002. Galwodd John Owens, ar ei benblwydd yn 70 oed, yr holl ffordd o Amwythig i weld y tŷ y bu'n byw ynddo wedi'i briodas yn 1950. Yma y magwyd ei ddau fab. Roedd John yn cofio reidio'i feic dros y bont gyda menynd mewn basged ond wrth iddo fynd dros twmpath cwmpodd y menynd mas o'r fased!

Yn 1958 prynwyd y Felin gan Dr Frances Moore a daeth hi â'i gŵr Basil i fyw yno wedi iddynt ymddeol yn yr 1970au. Cyn hynny roedd y teulu'n treulio gwyliau'r haf yno. Wedi ymddeol, fe wagiodd Frances y felin o bob periant a gwneud y tŷ yn fwy. Clywais i'r peiriant gael ei drosglwyddo i felin yn Dole ac felly erbyn heddiw dim ond y ddwy garreg felin sy'n gorwedd yn yr ardd sy'n arwydd o'r hen ddiwydiant.

Ers i mi ddod i fyw yma dros ugain mlynedd yn ôl, dwi wedi trio cario ymlaen gyda'r egwyddor o ddefnyddio egni adnewyddol drwy osod paneli solar i boethi dŵr a chynhyrchu trydan. Dwi hefyd wedi gwneud llawer o waith gyda calch, cywarch a chorc i greu tŷ sy'n defnyddio llawer llai o ynni i'w gadw'n glyd.



Linda Denton



Felin Penpompren tua 1900

Erbyn heddiw mae Becky, Paul, Donna a minnau'n byw yn y Felin. Mae Paul a Donna'n bwriadu adeiladu tŷ ecolegol yn yr ardal. Erthygl arall ar gyfer Dan Do cyn bo hir felly.

Dwi'n diolchgar iawn i Helen Carn, Dyfnaint, disgynydd John Maurice a Jane Davies, Plas Penpompren, am ei chymorth wrth lunio'r erthygl hon.

Mae croeso i ddarllenwyr Papur Pawb alw draw i weld y tŷ ar ôl i'r Cloi Mawr ddod i ben.

Linda Denton (lindalime@myphone.coop)

## STORFA HUNAN FYNEDIAD



### UNEDAU STORIO DIOGEL & WEDI GWRESOGI



Tel: 01654 703592

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

MID WALES STORAGE

www.midwalesstorage.co.uk

## Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881  
grantmayhewltd@yahoo.co.uk



# Ecodyfi a Coed Lleol am gefnogi'r gymuned, diolch i arian y Loteri Genedlaethol

Mae dau sefydliad lleol am gynyddu eu cefnogaeth i'r gymuned yn ardal Biosffer Dyfi UNESCO yn ystod yr amser heriol hwn, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol. Gyda'i gilydd byddant yn annog ac yn galluogi pobl i fod yn fwy egniol yn yr awyr agored trwy ddefnyddio presgripsiwn cymdeithasol a thrwy fynd i'r afael â materion mynediad a theithio.

Nod y prosiect 'Trywydd Iach' yw gwella iechyd a lles meddyliol a chorfforol preswylwyr. Bydd un rhan o'r prosiect yn darparu sesiynau gweithgaredd awyr agored fel therapi anifeiliaid, garddio, teithiau cerdded natur a sgiliau coetir, gan adeiladu ar y gwaith partneriaeth a ddatblygwyd yn ystod y prosiect Iechyd Awyr Agored 12 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, a'i addasu i sefyllfa Covid19. Mae meddygfeydd fel un Iechyd Bro Ddyfi yn bartneriaid pwysig.

Bydd rhan arall y prosiect yn gwella a / neu'n datblygu syniadau ar gyfer llwybrau cerdded a beicio. Bydd y rhain yn cynnig buddion hamdden, iechyd a lles ynghyd â gwella mynediad diogel i ganolfannau gwaith, hamdden a gwasanaeth.

Gwnaeth Ecodyfi gais llwyddiannus am £99,935 dros 2 flynedd o Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ac mae'n recriwtio Swyddog Prosiect i weithio ochr yn ochr ag aelod staff o Coed Lleol (Small Woods Wales).

Dywedodd Andy Rowland, Trefnydd ecodyfi; "Mae'r straen a'r teimladau o unigedd y mae llawer o bobl yn eu teimlo oherwydd sefyllfa Coronavirus yn gwneud prosiectau fel y rhain yn bwysicach nag erioed. Mae cyfranogwyr mewn gweithgareddau tebyg wedi dweud wrthym sut mae cysylltiadau â natur a gyda phobl eraill wedi eu helpu'n fawr. Bydd Trywydd Iach nid yn unig o fudd i bobl yn lleol ond bydd hefyd yn dangos i lunwyr polisi sut mae atal salwch yn well na gwella."

Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn blaenoriaethu ceisiadau am grant ar gyfer gweithgaredd cymunedol sy'n gysylltiedig â COVID-19. I ddarganfod mwy, ewch i [www.cronfagymunedolyg.org.uk/cymru](http://www.cronfagymunedolyg.org.uk/cymru).

Gwybodaeth Bellach:  
Andy Rowland, Rheolwr ecodyfi:  
01654 702630 (yn gweithio gartref).



**Am**  
**GOFEBAU ARBENNIG**  
**BEDDARGRAFFIADAU**  
**ADNEWYDDU O SAFON**  
**ARWYDDION AR DAI A**  
**BUSNESAU**

---

*Gofynnwch am bamffled  
rhad ac am ddim*

---

**James Memorials**  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111



# Colofn Ben Lake



Does dim dwywaith bod wynebu heriau'r cyfyngiadau clo yn mynd i fod dipyn anoddach i bob un ohonom a ninnau ar drothwy misoedd oer a thywyll y gaeaf.

Mae'n gyfnod arbennig o heriol i fusnesau bach lleol, ac er bod rhai mesurau cefnogi wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gefnogi busnesau drwy'r cyfyngiadau clo diweddaraf, rwy'n ofni na fydd y mesurau hynny'n ddigon i sicrhau cynaliadwyedd rhai busnesau a rhai sectorau'n benodol.

Dwi wedi cymryd pob cyfle yn San Steffan i drio darbwyllo'r Canghellor o'r angen i ymestyn ac ehangu'r cynllun presennol i weithwyr hunangyflogedig, gweithwyr tymhorol, a busnesau sydd wedi gweld cwymp sylweddol yn eu hincwm ers cyflwyno cyfyngiadau lleol yng Nghymru a Lloegr. Rwy'n mawr obeithio y bydd y Canghellor yn gwrandao ac yn gweithredu ar y mater ar frys.

Peth arall mae'r pandemig byd-eang hwn wedi'i amlygu'n fwy nag erioed o'r blaen yw pwysigrwydd y gadwyn gyflenwi bwyd a diogelwch ein bwyd.

Mae'r Mesur Amaeth yn ddarn pwysig iawn o ddeddfwriaeth sydd wedi bod yn gwneud ei ffordd drwy Senedd San Steffan dros y misoedd diwethaf. Er bod polisi amaeth wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, bydd Mesur Amaeth y DU yn cael effaith sylweddol ar y gadwyn gyflenwi bwyd ym mhob un o wledydd y DU pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym.

Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn dadlau ers amser maith eu bod am gymryd rheolaeth yn ôl, ac yn benodol y byddwn yn gallu pennu telerau ein masnach â'r byd ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Rydw innau wedi dadlau o'r cychwyn y dylai'r telerau hynny fod yn eithaf syml: dylai mynediad at y farchnad mewnforion i'r DU fod yn ddibynnol ar gwrdd â safonau cynhyrchu bwyd cyfatebol y DU. Heb y diogelwch hwn, credaf fod y Mesur Amaeth ar ei ffurf bresennol yn bygwth ffyniant ffermio yng Nghymru.

Er gwaetha'r canlyniad siomedig, dwi'n falch mod i wedi cael y cyfle i siarad yn i Siambr o blaid cyflwyno gwelliannau i'r Mesur fyddai nid yn unig yn diogelu safonau bwyd mewn cytundebau masnach, ond fyddai hefyd yn cryfhau gallu'r Senedd i graffu ar drafodaethau masnach y dyfodol. Byddaf yn parhau i frwydro dros ddyfodol ffermwyr Cymru wrth i'r Mesur Amaeth barhau i wneud ei ffordd drwy'r Senedd.

Rhwng popeth, gwn bod yna gyfnod heriol o'n blaenau ond drwy gydweithio, dyfalbarhau a chefnogi'n gilydd, rwy'n ffyddiog y dewn ni drwyddi.

## Yma i chi

Er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19, gallwn barhau i gwrdd â'n hetholwyr. Yn ddibynnol ar y rheoliadau presennol, gallwn gwrdd ar-lein, dros y ffôn ac yn yr awyr agored.

**Elin Jones AS**  
Ffôn: 01970 624516  
E-bost: [elin.jones@senedd.cymru](mailto:elin.jones@senedd.cymru)  
Post: 32 Heol y Wig, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2LN  
Facebook & Twitter: ElinCeredigion

**Ben Lake AS**  
Ffôn: 01570 940333  
E-bost: [ben.lake.mp@parliament.uk](mailto:ben.lake.mp@parliament.uk)  
Post: Bryndulais, 67 Heol y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7AB  
Facebook: BenLakeCeredigion  
Twitter: @BenMLake





# Teithiau hir i hen geir



Y ceir wedi cyrraedd Bwlch-y-groes

Yn ddiweddar trefnodd Stephen Owen, Rhoslan rali yn bennaf i geir y clwb MG lleol ond i sawl un arall â'r un diddordeb. Gweler yn y llun bod nifer o geir wedi ymuno ar y dydd fel bod trawsdoriad iach o hen geir wedi dod i ben eu taith yn Rhoslan. Y car hynaf oedd MGTC o 1947 gydag eraill fel A35 Van, Jaguar gwyn, Triumph Stag, Porsche 911 a Mercedes 250L, hwn yn eiddo i Keith, Llanbadarn Fawr a fu ar un adeg yn ein cynorthwyo ni i symud tŷ.

Camp Stephen oedd trefnu taith i ogledd Cymru, taith o ryw 150mllt. a oedd yn cynnwys mannau fel Melin Meirion yn Ninas Mawddwy cyn codi dros ail fwlch uchaf Cymru, Bwlch-y-groes (454m) i Lanuwchllyn, Y Bala, Llyn Brenig i fwyta rhywbeth, Coed y Brenin ac adref via Dolgellau. Gan mae cyfnod cofid oedd hi roedd rhaid cadw at y pellter parchus felly picnic ar gyfer cinio cyn gorffen y daith yn Rhoslan. Trwy lwc ni fu problemau ar y daith, dim teiar fflat, neb yn colli'r ffordd nac yn torri lawr.

Y Sadwrn canlynol roedd taith o ryw 125mllt i'r de, gyda mwy o geir, yn dechrau ac yn gorffen yn Llandysul. Credir bod yn agos i 30 car wedi cymryd rhan yn y teithiau gyda rhai yn dod o Gaerdydd a'r Amwythig. O Landysul teithiodd y ceir, ymhlith mannau eraill, i Lanymddyfri, Aberglaslyn, Cwm Elan, Rhaeadr, Bont ac i'r Hafod lle roedd taith tywys wedi ei threfnu ar eu cyfer. Trwy lwc cafwyd deuddydd o dywydd hyfryd felly dau Sadwrn o 'gwynt yn y gwallt' i'r rhai heb do i'w cerbyd.

Tra'r oedd y daith i'r gogledd yn hollol ddi-drafferth nid felly yr un i'r de - bu rhaid i rywun newid ffiws! Gyda hynny mewn golwg rhaid paratoi'n drylwyr bob tro cyn gadael adre mewn car o oedran mawr ac fel arfer mae ganddynt ddillad addas ar gyfer trwsio pethau neu newid belt, plyg, peipen..... a ffiws.

Gan fod taith y gogledd yn gorffen yn Rhoslan bu rhaid i Janet, gwraig Stephen, aros adre i baratoi y BBQ yn eu sied fawr ar gyfer yr ymwelwyr ond yn hytrach nag aros adre a cholli'r daith i'r de roedd Janet yn gallu teithio mewn steil gyda Stephen yn eu MG gwyrdd.

Rh.H

## Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2020

22 Tachwedd | 15:00 - 16:00

Yn lle CCB corfforol eleni, cyhoeddir adroddiadau gan y Cadeirydd, y Trysorydd a'r Rheolwr Busnes ar ein gwefan.

Bydd y rhain ar-lein o 5/11/20 ar <http://cletwr.com>.

Gwahoddir cwestiynau ysgrifenedig (gyda'ch enw a chyfeiriad) gan aelodau'r cwmni a'r gymuned i'w hanfon at [ccb-agm@cletwr.com](mailto:ccb-agm@cletwr.com) erbyn 12/11/20. Ni chyhoeddir cyfeiriadau. Rhoddir ymatebion mewn cyfarfod Zoom ar 22/11/20 rhwng 3-4yp.

Cletwr



Rachel Solnick

## Nofio dros y Cylch Meithrin

Mae wedi bod yn gyfnod anodd i Gylch Meithrin Tal-y-bont yn ystod cyfnod Covid-19 ac yn arbennig felly o safbwynt codi arian.

Felly fe benderfynodd un o rieni'r ysgol, Rachel Solnick, godi arian drwy nofio yn y môr yn Borth bob dydd drwy gydol mis Tachwedd a gofyn am gyfraniadau drwy wefan Justgiving. Mae wedi cadw at ei gair hyd yn hyn gan nofio ym mhob tywydd. Ei tharged ariannol oedd £1000 ond mae'r cyfanswm hwnnw wedi'i guro ers tro.

Mae'r Cylch yn ddiolchgar i Rachel am ei hymdrechion. Mae modd cyfrannu drwy'r wefan fel a ganlyn:

<https://www.justgiving.com/crowdfunding/holly-aubrey>

## Calan Gaeaf



Er nad oedd 'trick or treat' ar nos Galan Gaeaf eleni fe lwyddodd merched bach Craig y Delyn, Tal-y-bont, Lela a Jessie Jenkins, fwynhau'r diwrnod wedi iddynt dderbyn anrheg arbennig. Daeth Delyth Ifan draw gyda phwmpen anferth, cynnyrch gardd Llys Alaw. Roedd Lela a Jessie wrth eu boddau ac roedd ei mam, Ceri, yn brysyr iawn yn coginio cawl a chacen bwmpen.



# Prosiect Cymunedau Creadigol Cletwr

Yn ystod 2021 bydd Celf Cletwr Art yn cynnal prosiect cymunedol cyffrous sy'n agored i bawb yn Nalgylch Taliesin a Thal-y-bont.

Bydd yr Artist o Fachynlleth, Elin Crowley yn cydweithio gyda Celf Cletwr Art i gynnig gweithgareddau a gweithdai celf dros y flwyddyn nesaf, gyda'r bwriad o greu darn gorffenedig fydd yn rhan o arddangosfa parhaol yng Nghaffi Cletwr.

Bydd y gweithdai yn cynnwys gweithdai argraffu, celf gain, gwaith brodwaith, a gwnio, a bydd syniadau y cyfranogwyr yn cael eu casglu i greu'r syniadau ar gyfer y darn gorffenedig.

Bydd y gweithdai ar-lein am gyfnod tan bydd hi'n saff a phobl yn gyfforddus i ddod i weithdai wyneb yn wyneb unwaith eto.

Os hoffech gymeryd rhan, byddai Elin wrth eu bodd yn clywed gennych. Ebostiwch [elinvj@hotmail.com](mailto:elinvj@hotmail.com), neu cysylltwch a hi ar 07743575017



## Garej Davmor

Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars  
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion  
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig  
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

[www.davmorgarage.co.uk](http://www.davmorgarage.co.uk)  
Ffôn: 01970 832278

6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

[www.michaelrowlands.ltd.uk](http://www.michaelrowlands.ltd.uk)  
[m.rowlands1958@gmail.com](mailto:m.rowlands1958@gmail.com)

## Michael Rowlands

### Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

# Y Tu Ôl i'r Lens

Ffion Davies o Faes-y-Deri yw'r ffotograffydd talentog y tu ôl i weithgaredd diddorol iawn. Sefydlwyd Ffotograffimair gan Ffion, sy'n wreiddiol o'r pentref ac sy'n briod a chanddi ddau o blant bach. Ar hyn o bryd mae'n dilyn cwrs hyfforddi Ffotograffiaeth Priodasol 3 mlynedd yn ogystal â threulio tipyn o'i hamser yn tynnu lluniau teuluoedd, anifeiliaid anwes a babanod. Mae Ffion hefyd wrth ei bodd yn cynnal sesiynau 'cake-smash', sef tynnu lluniau o fabis yn gwneud llanast wrth fwyta eu cacennau penblwydd. Am hwyll!


Meddai Ffion, 'Mae'r enw Ffotograffimair yn gyfuniad o fy enw i ac enw fy mamgu, Mair. 'Dw i wedi caru ffotograffiaeth ers yn blentyn ac wrth fy modd yn pori drwy'r albymys teuluol. Mae'n gyfrwng eithriadol o bwerus, yn gallu rhewi eiliadu pwysig bywyd i'w trysori am byth. Mae ffotograffau wedi chwarae rhan bwysig yn fy mywyd personol hefyd, gan i mi i golli fy nhad, Stevan Southgate pan yn ifanc. Roedd edrych ar luniau o'r ddau ohonom wedi fy helpu i ddygymod â'r golled yn well wrth i mi dyfu fyny. Fy nod yw cynnig y cyfle yma i bobl eraill, seff lluniau i'w trysori.'

Ers Cyfnod Clo Covid 19, llwyddodd Ffion a 2 ffotograffydd arall o'r ardal godi dros £1,300 i Ward Gwenllian yn Ysbyty Bronglais trwy gynnig sesiynau ffotograffiaeth stepen drws i deuluoedd. Yna, byddai'r teuluoedd yn cyfrannu'n ariannol i goffrau'r Ward yn ôl eu gallu.

Os hoffech drefnu sesiwn ffotograffiaeth gyda Ffion, ewch i'w thudalen Facebook neu i'w gwefan i drefnu'n uniongyrchol. <https://www.fffotograffimair.co.uk>

Mae gan Ffion hefyd dudalen Instagram a gellir cysylltu â ni yma- Ffotograffimair.

Dymuniadau gorau i ti Ffion!



Dyma ffotograff hyfryd gan Ffion o'i merch fach Ellen



# A am Afalau



Fel ran o'r rhaglen o weithgareddau a gynhelir gan Cletwr daeth criw ynghyd dan gysgod allanol yn ddiweddar i ddathlu Diwrnod Afal. Dethlir y diwrnod arbennig yma ar hyd y byd yn ystod cyfnod y cynhaeaf ac mae cynnal digwyddiadau cymunedol wedi tyfu'n boblogaidd iawn. Prif nod Diwrnod Afal yw atgoffa'r cyhoedd o bwysigrwydd perllanoedd a natur i'r ddynoliaeth ac mae'r dathliad yn gallu golygu arlwy o ddigwyddiadau amrywiol.

Trefnodd criw digwyddiadau Cletwr fod stondinau yn gwerthu coed a phlanhigion yn mynychu'r digwyddiad ar brynawn Sul, Medi 27ain. Yn eu plith daeth Merched y Berllan o Fachynlleth ag arwly o coed afalau ysbennnydd yn ogystal â blodau a phlanhigion hardd gan Grace Crabbe (ewch i'w tudalennau Facebook am wybodaeth).

Hefyd daeth Daniel a Corrine Jacks o Lodge Park i gynorthwyo unrhywun oedd am droi eu cnwd o afalau yn sudd blasus. Mae'r

ddau wedi adeiladu dyfais hynod ddifyr sy'n gwasgu'r sudd o'r afalau er mwyn galluogi'r defnyddiwr i boteli'r hylif. Mae defnyddio'r peiriant hynod yn golygu osgoi gwastraff ac yn dipyn o 'workout' yn ogystal!

Y bwriad yw parhau i gynnal y dathliad yn flynyddol gan godi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad hwyliog yma ymhlith trigolion yr ardal sy'n chwilio am ddefnydd amgen i'w hafalau sydd ddim yn cyrraedd y darten!





Pistyll y Llan | Talybont | Ceredigion | SY24 5HF  
gruffyddjones@googlemail.com

**07594 349 354**  
**01970 832 543**

**Gruffydd Jones**  
Briciwr • Gwaith Maen • Slabio

# Y Gair Olaf



Mewn ymdrech i geisio bod yn fwy trefnus yn ddiweddar, cefais i bwl o gymhenu a dod ar draws rhywbeth roddodd f'Anti Sali i mi pan oeddwn i'n groten - waled fach led i ddal stampiau, gyda'r geiriau "A stamp costs little, a letter is worth much" ar y tu blaen. Er nad oeddwn i wedi defnyddio'r waled ers blynnyddoedd lawer roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n haeddu mwy o barch, felly penderfynais ei rhoi mewn bocs yn cynnwys bwndel o lythyron a anfonwyd ataf flynyddoedd yn ôl gan aelodau o'm teulu, ffrindiau coleg ac anwyliaid eraill. Byddwn i'n dychmygu bod bocs tebyg gan nifer go lew o ddarllenwyr Papur Pawb gan fod cadw hen lythyron a'u darllen dro ar ôl tro yn dod â boddhad mawr i ni.

Mae cynnwys y bocs sydd gyda fi yn amhrisiadwy ac mae ymhlith yr eiddo mwyaf gwerthfawr sydd gennyf. "A letter IS worth much", nid yn unig i'r derbynnydd ond i'r sawl sy'n ysgrifennu hefyd. Mae ymchwil diweddar gan brifysgol yn nhalaith Ohio, wedi profi bod y weithred o ysgrifennu llythyr ynddi'i hun yn rhywbeth llesol a gwerthfawr. Trwy fynd i'r arfer o ysgrifennu llythyron, yn enwedig rhai sy'n cyfleu diolch, mae'n debyg y byddwch chi'n teimlo'n hapusach ac yn fwy bodlon ac os ydych chi'n dioddef o symptomau iselder bydd eich symptomau'n lleihau.

Mae siawns y bydd rhai yn meddwl bod hyn yn swinio'n rhyfedd ac ychydig yn hen ffasiwn. Gallech chi feddwl bod tecstio neu anfon ebost yn gwneud y tro'n iawn ond rhyw ffrwt o negeseuon yw'r rheiny'n aml. Trwy eistedd i lawr, pwyso a mesur ac ystyried yr hyn rydych chi am ei gyfleu ar bapur rydych chi'n rhoi cyfle i chi'ch hun i fod yn feddylgar. Rydych chi'n rhoi'r cyfle i chi'ch hun i gyfrif eich bendithion a meddwl am y pethau da yn eich bywyd.

Mae covid-19 wedi troi'r byd wyneb i waered a gorfodi nifer fawr ohonom ni i arafu o ddydd i ddydd. Mae wedi achosi straen difrifol i lawer hefyd. Ai dyma'r adeg, felly, i gydio mewn papur a beiro, cael gafael ar stamp ac yna mynd am wac fach i'r bocs postio agosaf? Beth amdani?

Menna Morgan

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Eglwys Efrogylaid

**Aberystwyth**

**MAE'R NADOLIG YN...?**

Agorwch ein

**CALENDR ADFENT**

Pryd? o'r 1<sup>af</sup> Rhagfyr tan Ddydd Nadolig

Sut? Dilyn  @eglwysefrogylaidaberystwyth  
 @EgEfAber  
ac ar ein gwefan

Cynhelir ein

**GWASANAETH CAROLAU**

ar-lein ar Ddydd Sul 20<sup>fed</sup> Rhagfyr am 5.00yp

**GWASANAETH DWYIEITHOG**

Bore Dydd Nadolig am 10.00

**EDRYCHWN YMLAEN YN FAWR AT GAEL EICH CWMNI!**

www.eglwysefrogylaidaberystwyth.co.uk / 01970 820 496



# CHWARAEON


## Marathon Llundain

Llongyfarchiadau mawr i Nicola Myring-Thomas, Dôl Pistyll, Tal-y-bont, ar lwyddo i redeg Marathon rhithwir Virgin Money Llundain. Y gamp oedd rhedeg Marathon yn eich ardal leol gan nad oedd modd gwneud hynny yn Llundain o dan yr amgylchiadau presennol.

Roedd bore Sul 4 Hydref yn wlyb iawn ond nid oedd hynny'n ddigon i rwystro Nicola. Rhedodd o Dal-y-bont i Landre ac yna ymlaen i Borth, heibio Ynys-las, gan ddychwelyd i Dal-y-bont drwy Dre'r ddôl. Ond dim ond hanner marathon oedd hynny ac roedd angen iddi redeg y cylch unwaith



eto er mwyn cyflawni'r 26.2 milltir. Cofnodwyd hyn oll ar App arbennig y Marathon a nodwyd iddi gyflawni'r cyfan yn yr amser parchus o 5 awr a 28 munud. Tipyn o gamp.



*Rhys yn canu'r anthem cyn y gêm yn erbyn Bwlgaria.*

## Cap i Rhys

Llongyfarchiadau i Rhys Norrington-Davies, Ty'n-y-cae, Tal-y-bont, ar ennill ei gap cyntaf dros Gymru yn y fuddugoliaeth glodwiw oddi cartref ym Mwlgaria. Canmolwyd ei berfformiad gan bawb ac mae wedi cadw ei le yn y garfan ar gyfer y tair gêm sydd i'w chwarae gan Gymru ym mis Tachwedd.

argraffu da  
am bris da

**yLolfa** holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)



*Michael Rowlands, Gwenallt Llwyd Ifan, Ceri Jones, Alun Elidyr a Evan Astley*

## Pysgota



*Daddy*

*Brithyll Seithliu*

Mae aelodau tîm pysgota Tal-y-bont yn pysgota dan yr enw Meibion Glyndŵr yng nghyngair Llyn Clywedog, Llanidloes. Er i'r tymor gael ei heffeithio gan Covid-19 eleni, cafodd yr aelodau gyfle i fwrw'r cwch i'w dŵr a mwynhau ambell ddiwrnod o bysgota. Cafodd y tymor ei gwtogi, gan olygu colli 4 mis o bysgota (y 4 mis orau yn ôl rhai). Mae'r bois wedi cael tymor gweddol ar ôl 3 rownd, ac yn eistedd yng nghanol y gyngrair ar hyn o bryd.

Yn ôl aelodau'r tîm mae'r pysgota'n dda ar hyn o bryd gyda pluen sych 'Daddy' yn gweithion dda wrth i ni fynd mewn i'r Hydref. Y 'Buzzer', sef math o wybed, yw'r brif ffynhonnell fwyd sydd yn deor ar waelod y llyn ac yna'n dod i'r wyneb ar bluen orau i ddenu'r rhain yw'r 'Dawl Bach' a 'Black Quill Shuttlecock'. Ond mae'n rhaid dal yn sownd i'r wilalen gan fod y pysgod yn ymladd yn galed! Dyma wybodaeth werthfawr am ddim i unrhyw ddarpar bysgotwyr gan Bapur Pawb! Mae llawer o'r pysgotwyr yn clymu eu plu eu hunain, sy'n dipyn o gamp fel y gallwch ddychmygu wrth edrych ar y lluniau. Ond mae yna ddewis helaeth ar gael mewn sawl siop erbyn hyn.

Felly bois, ymlaen â chi yn hyderus gan obeithio y bydd Meibion Glyndŵr yn concro'r gystadleuaeth ac y bydd pysgota yn gallu digwydd yn ôl yr arfer ym 2021.



*Black Quill Shuttlecock*



*Dawl Bach*